

RHESTR WIRIO AMCANION ASESU I FYFYRWYR UNED 1 PORTFFOLIO / UNED 2 ASEINIAD WEDI'I OSOD YN ALLANOL

Cyngor ar ysgrifennu: Dylech gofnodi eich syniadau, arsylwadau, mewnwelediadau a barnau annibynnol trwy gyfrwng sylwebaeth ysgrifenedig yn ogystal ag yn weledol. Cewch ddefnyddio anodi neu ffurfiau mwy estynedig ar ysgrifennu i ddangos sut rydych chi wedi bodloni unrhyw un o'r amcanion asesu neu unrhyw gyfuniad ohonynt. Dylai eich dull ysgrifennu fod yn addas i'r pwrpas, darllenadwy, clir a rhesymegol. Dylech ddefnyddio geirfa arbenigol pan fo'n briodol.

AMCANION ASESU	Darparwch dystiolaeth sy'n dangos eich bod chi wedi:	✓ neu x
<p>AA1 Dealltwriaeth Feirniadol</p> <p>Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, gan amlygu dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau.</p>	<p>Ymchwilio i waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill yn ogystal â ffynonellau eraill ac wedi defnyddio eich ymchwil i ddatblygu amrywiaeth o syniadau.</p> <p>Dogfennu eich barnau a'ch safbwyntiau eich hun am waith pobl eraill.</p> <p>Datblygu eich syniadau trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chydlynol, gan ddangos dealltwriaeth glir o'ch ffynonellau a'u perthnasedd i'ch syniadau chi.</p>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
<p>AA2 Gwneud Creadigol</p> <p>Mireinio gwaith drwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol.</p>	<p>Archwilio a mireinio eich syniadau yn ystod pob cam datblygu.</p> <p>Gallu dewis ac arbrofi gydag amrywiaeth o ddefnyddiau a phrosesau er mwyn symud eich gwaith yn ei flaen.</p> <p>Trin defnyddiau a phrosesau'n fedrus a diogel i gynhyrchu canlyniadau o safon uchel.</p> <p>Adolygu eich gwaith i wella ei ansawdd wrth iddo fynd yn ei flaen.</p>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
<p>AA3 Cofnodi Myfyriol</p> <p>Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.</p>	<p>Defnyddio dulliau addas ac amrywiol i gofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau, o ffynonellau uniongyrchol os oedd modd yn hytrach na rhai eilaidd.</p> <p>Dangos bod eich ymchwil ac ymholi wedi bod yn berthnasol i'ch bwriadau personol.</p> <p>Trefnu eich syniadau a'u cyfleu'n glir wrth iddynt ddatblygu o'ch ymchwil, gan fyfyrto ar eich gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen.</p>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
<p>AA4 Cyflwyno Personol</p> <p>Cyflwyno ymateb personol ac ystyrion sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol.</p>	<p>Cyflwyno eich syniadau a chanlyniadau dychmygus eich hun.</p> <p>Dangos y prosesau rydych chi wedi gwireddu eich bwriadau trwyddynt.</p> <p>Gwneud cysylltiadau eglur rhwng gwahanol rannau eich gwaith, gan gynnwys gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill, fel ei fod yn ystyrion ac mewn trefn hawdd ei dilyn.</p> <p>Meddwl yn ofalus am ddewis a chyflwyno eich gwaith terfynol.</p>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>